# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 13 Chwefror 2019

Amser y cyfarfod: 13.30

# 190(v4)

## 1 Cwestiynau i Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit (yn rhinwedd ei gyfrifoldebau fel Gweinidog Brexit)

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

Gofyn i'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

Jenny Rathbone (Canol Caerdydd): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ddarpariaeth llety ar gyfer pobl sy'n gadael carchar Caerdydd yng ngoleuni'r adroddiad diweddaraf gan y Bwrdd Monitro Annibynnol?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## Cynigion i ethol Aelodau i Bwyllgorau (5 munud)

**NDM6971** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 17.3 ac 17.13(ii), yn ethol Delyth Jewell (Plaid Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol.

**NDM6972** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Delyth Jewell (Plaid Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn lle Dai Lloyd (Plaid Cymru).

## 5 Datganiad gan y Llywydd: Cyflwyno Bil arfaethedig y Comisiwn – Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)

(30 munud)

**Dogfennau Ategol**

Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru)

Memorandwm Esboniadol

## 6 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2017-18

(60 munud)

**NDM6965** Nick Ramsay (Mynwy)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus - Craffu ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2017-18 - a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Tachwedd 2018.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Ionawr 2019.

Cafwyd ymateb gan Cyfoeth Naturiol Cymru i'r adroddiad ac fe'i cyhoeddwyd ar dudalen y Pwyllgor ar y we ar 14 Ionawr 2019.

## 7 Dadl Plaid Cymru - Grant Byw'n Annibynnol Cymru

(60 munud)

**NDM6967** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddal gafael llawn ar Grant Byw'n Annibynnol Cymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Rebecca Evans (Gwyr)**

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru bob amser wedi neilltuo'r swm llawn o gyllid a drosglwyddwyd ar gyfer y Gronfa Byw'n Annibynnol at y diben hwnnw.

2. Yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i weithio gyda'r rhai sy'n derbyn y cyllid a'r awdurdodau lleol i sicrhau bod bwriadau Grant Byw'n Annibynnol Cymru yn parhau i gael eu cyflawni yng Nghymru.

**Gwelliant 2 – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Ychwanegu fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod pobl anabl yn bartneriaid llawn wrth ddylunio a gweithredu Cronfa Byw'n Annibynnol Cymru, sy'n diogelu hawliau pobl anabl i fyw bywydau annibynnol.

## 8 Dadl Plaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig – Carchardai a Charcharorion

(60 munud)

**NDM6966 Gareth Bennett (Canol De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn credu y dylai carchardai fod yn fannau diwygio ac adsefydlu, ac mai'r carchar yw'r gosb ar gyfer y rhai a gaiff eu dyfarnu'n euog o drosedd.

2. Yn penderfynu na ddylai carcharorion gael yr hawl i bleidleisio yn etholiadau Cymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 – Rebecca Evans (Gwyr)**

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn credu y dylai carchardai fod yn lleoedd i ddiwygio ac adsefydlu.

2. Yn cefnogi'r egwyddor o hawliau pleidleisio i garcharorion yn etholiadau Cymru, ond yn disgwyl am adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau.

*[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliannau 2 a 3 eu dad-ddethol]*

**Gwelliant 2 - Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Ychwanegu pwyntiau newydd ar ôl pwynt 1 ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn croesawu'r ffocws gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar wasanaethau adsefydlu, dedfrydau cymunedol a lleihau aildroseddu.

Yn nodi bod y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn cynnal ymchwiliad cyfredol i hawliau pleidleisio i garcharorion.

**Gwelliant 3 - Darren Millar (Gorllewin Clwyd)**

Ym mhwynt 2, dileu 'na ddylai carcharorion gael yr hawl i bleidleisio yn etholiadau Cymru' a rhoi yn ei le 'na ddylai hawliau pleidleisio cyfredol carcharorion gael eu hymestyn i etholiadau Cymru yn y dyfodol'.

## 9 Cyfnod pleidleisio

## 10 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM6962** Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru)

Deddfwriaeth ansawdd aer sy'n addas ar gyfer heriau modern.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 19 Chwefror 2019